# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Erika Kirchner | Adran Etholiadol: | Castell |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth:**

Mae gan Ward y Castell rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a hefyd rai o'r mwyaf cefnog. Mae'n gydbwysedd, oherwydd bod gan bob rhan o'r ward ei phroblemau ei hun. Gan fod gwrth-dlodi'n fater pwysig ar agenda'r cyngor, un o'n 5 blaenoriaeth allweddol, rydym yn cymryd mesurau i liniaru problemau tlodi gyda mentrau newydd, e.e. tai ac adnewyddu tanwydd mewn rhannau o'r ward. Yn ystod 2014-15 cynhaliwyd cymorthfeydd cynghori dydd Sadwrn wythnosol ym Mrynmelyn, y Marina, Mount Pleasant a'r Sandfields. Dros y flwyddyn nesaf rydym yn bwriadu cynnal rhagor o gymorthfeydd stryd gyda'r nod o gwrdd â rhagor o'n cymdogion a'n preswylwyr i glywed eu barn am fyw yn Abertawe a sut gallwn ni wella. Roeddwn yn derbyn galwadau gan unigolion yn y ward yn rheolaidd ac yn ceisio datrys unrhyw broblemau oedd ganddynt. Roedd problemau gyda thai, marciau ffordd, tyllau ffordd, anghydfodau rhwng cymdogion, llwybrau bysus, tipio anghyfreithlon, llygredd sŵn, lloches a meysydd eraill megis cynllunio. Roeddwn yn mynychu cyfarfodydd y preswylwyr a gynhelir bob mis neu bob yn ail fis. Roeddem yn gwrando ar bob pryder a hefyd yn rhoi adborth ar yr hyn yr oedd y cyngor yn ei wneud. Roeddwn hefyd yn gweithio gyda'r heddlu a'r cyfarfodydd PACT a gynhaliwyd yn y ward a chanol y ddinas. Roeddwn yn Gadeirydd Ysgol Iau Heol Teras a newydd orffen bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gadeiriol Gatholig San Joseff, ar ôl bod yn y swydd ers 2005. Roeddwn yn gweithio gyda'r ddwy raglen Cymunedau'n Gyntaf yn Ward y Castell, lle gwelsom ddatblygiadau rhagorol yn datblygu i bobl yn y gymuned. Roeddwn hefyd yn mynd i ddigwyddiadau a boreau coffi yn y ward ac yn parchu pob Diwrnod Cyn-Filwyr a gwasanaeth amddiffynnol. Ac yn anffodus, yn ystod y flwyddyn, es i angladdau chwe phreswylydd. Yn aml roeddwn ar ddyletswydd cyfryngu anghydfodau. Gallai hyn fod rhwng preswylwyr, preswylwyr a'r cyngor neu unrhyw grŵp arall sy'n gysylltiedig â phryderon ein preswylwyr.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Isod dangosir y % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Y Cyngor | 15 | / | 17 | 88 | % |
| Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Pwyllgor Ymgynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 7 | / | 7 | 100 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldebau | 1 | / | 5 | 20 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 3 | / | 3 | 100 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **44** | **/** | **54** | **81** | **%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | | | | |
| Panel Craffu Perfformiad Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 5 | / | 8 | 63 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Diwylliant Corfforaethol | 5 | / | 7 | 71 | % |
| Panel Gweithgor Craffu Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 6 | / | 10 | 60 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Lles | 4 | / | 6 | 67 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **20** | **/** | **31** | **65** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Fel Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet (PCC), roeddwn yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith penodol sy'n cael ei neilltuo i aelodau'r Cabinet yn cael ei gwblhau ar amser a bod y canlyniadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni. Mae'r darnau gwaith hyn yn rhan o bum blaenoriaeth a gwerth allweddol y cyngor. Mae'r pwyllgor yn cydgysylltu ag aelodau'r Cabinet ar gyfer: Trawsnewid a Pherfformiad, Lles a Dinasoedd Iach a Gwrth-dlodi. O ganlyniad i welliannau parhaus, gwneir newidiadau i bob PCC yn 2015-16, gan gynnwys teitlau cliriach a fydd yn adlewyrchu pum blaenoriaeth allweddol y cyngor. Byddwn hefyd yn edrych ar blant a phobl ifanc. Caiff y newidiadau eu gwneud ar ôl cyfarfod y cyngor ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf 2015. Byddwn yn dechrau'r tymor newydd gydag Aelodau'r Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Ystyriwyd materion ynglŷn â chynnwys staff, faint o'n staff a gafodd arfarniadau, sut rydym yn diolch i'n staff ac yn dangos iddynt ein bod yn eu gwerthfawrogi. Diwrnodau salwch ac achosion perthnasol. Aethom i weld sut mae'r DVLA yn cynnwys eu staff hwy. Ymchwiliwyd i'n sefyllfa o ran cam-drin yn y cartref yn Abertawe trwy gyflwyniad gan Ali Morris, y Cydlynydd Cam-drin yn y Cartref. Rwy'n falch o adrodd ein bod ar flaen y gad yng Nghymru ar holl faterion sy'n ymwneud â Cham-drin yn y Cartref. Ymwelais â Charchar Abertawe i edrych ar y rhaglen newydd i droseddwyr. Roedd hyn yn llwyddiannus iawn ymhlith yr 8 gwirfoddolwr a gymerodd ran ynddi. Cawsom ein hysbysu gan y Swyddog Cydgysylltu Myfyrwyr am y gwaith a wnaed gan y prifysgolion i hyrwyddo cysylltiadau rhwng myfyrwyr a'r gymuned. Rhoddwyd cyflwyniadau gan Geiswyr Lloches Bae Abertawe. Cymerais ran yng nghyflwyniad Sefydliad Robert Rowntree ar 'Pam mae Ethnigrwydd yn Bwysig ar gyfer Camau Gweithredu Awdurdodau Lleol ar Wrth-dlodi'. Aethom i fanylder ynglŷn â chynnwys staff. Ein cred yw bod angen i ni werthfawrogi ein staff yn fwy ac rydym yn disgwyl newid cadarnhaol cadarn at ddiwylliant gwaith. Sicrheais y cafodd holl Hyrwyddwyr y Cyngor eu cydnadod gyda'r cyfle i roi adborth i'r pwyllgor am eu holl waith gwych. Es i bob diwrnod oddi cartref y Cabinet lle roedd rheoli gwasanaethau ac adrannau'n cael eu hystyried a'u datblygu.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Mae Abertawe'n ddinas o diwylliannau amrywiol gyda phob un yn ychwanegu elfennau lliwgar at ein dinas. Roeddwn yn eistedd (ac rwy'n eistedd o hyd) ar y Cyngor Cydraddoldeb Hil. Roedd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda phob cymuned BEM; cyfarfûm â'r fforwm BEM i drafod sut gallem gydweithio'n agosach â'n gilydd. Mae Abertawe yn Ddinas Lloches ac rwy'n falch iawn o fod yn rhan o hynny. Nod ein PCC wedi'r cyfan yw cynnwys a chynhwysiad. I sicrhau ein bod yn bodloni ein safonau, byddwn yn ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o bolisïau Abertawe. Rwy'n Hyrwyddwr yn erbyn Cam-drin yn y Cartref. Roeddwn yn cwrdd yn rheolaidd â'r grwpiau Cam-drin yn y Cartref sydd wedi profi cam-drin yn y cartref. Rwy'n falch o ddweud ein bod ni yn Abertawe'n arwain y ffordd yng Nghymru trwy gynyddu ymwybyddiaeth a darparu gwasanaethau rhagorol, gan gynnwys rhaglenni ar gyfer troseddwyr. Cynhaliwyd Diwrnod y Rhuban Wen a oedd yn llwyddiannus iawn gyda'r Arglwydd Faer, yr Elyrch, y gwasanaeth tân gyda pheiriant tân a llawer eraill yn bresennol, gan gynnwys grŵp o

lanciau a addawodd i beidio byth â niweidio unrhyw un â'u dwylo. Rhoddodd pawb eu dwylo mewn paent lliw gwlyb a'u gwasgu ar faner wen anferth. Mae'r Siop Dan yr Unto ar gyfer dioddefwyr cam-drin yn y cartref bellach wedi agor ar ôl cyfnod hir iawn - bron dwy flynedd o ddatblygu cynlluniau. Mae'n ased aruthrol i Abertawe ac mae llawer o bobl ddienw eisoes yn defnyddio'r gwasanaeth.

Fel Hyrwyddwr Amrywiaeth dros Abertawe, roeddwn yn cwrdd bob yn ail fis â'r holl Hyrwyddwyr Amrywiaeth eraill ledled Cymru. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cadeirio gan Leighton Andrews AC. Ein comisiwn oedd helpu i annog a mentora unrhyw berson o gefndir ethnig i ymgymryd â rolau gwleidyddol. Mae amrywiaeth yn cyd-fynd yn dda â chydraddoldeb ac yng Nghyngor Abertawe rydym yn benderfynol o fod yn deg i bawb a chreu cyfleoedd i holl ddinasyddion Abertawe.

Ymwelais â'r holl gartrefi preswyl ar draws y ddinas i gael syniadau am sut gall ein cyngor ddarparu'r math cywir o eiddo i bobl hŷn yn y dyfodol. Oherwydd newidiadau cynllunio dros y flwyddyn ddiwethaf, cefais fy mhenodi'n un o'r 12 cynghorydd i wasanaethau ar y Pwyllgor Cynllunio.

Adran 5: Dysgu a Datblygu

Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
23/02/2015 - Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl
19/11/2014 - Rôl Aelodau Etholedig wrth Gefnogi a Hyrwyddo Sipsiwn (Roma) a Theithwyr
31/10/2014 - Diogelu
08/10/2014 - Sut i fanteisio i'r eithaf ar eich tabled/ffôn clyfar
03/07/2014 - Hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth
Es i hefyd i'r digwyddiadau canlynol: Cynhadledd Ymwybyddiaeth Rywiol Plant 20/10/14;
Cynhadledd Materion Cyfiawnder i Fenywod 19/09/14;
Cyfarfod Menywod dros Newid 07/10/14, lle rhoddais araith;
Diwrnod Iechyd Meddwl 10/10/14 i'w gefnogi; Cynhadledd Gofalwyr Maeth 28/10/14;
Hyfforddiant Diwygio Llywodraeth Leol 30/10/14;
Hyfforddiant Diogelu Plant 31/10/14; Diwrnod y Rhuban Gwyn 25/11/14;
Cynhadledd Cydraddoldeb 25/03/15; Cynhadledd Cyffuriau 12/03/15; Hyfforddiant Amrywiaeth 19/03/15;
Fforwm Gwrth-Gaethwasiaeth a Masnachu Pobl 21/03/15; Cynhadledd Cydraddoldeb 25/03/15;
Cynhadledd Cam-drin yn y Cartref 27/03/015; Etholiadau seneddol Ebrill-Mai

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Bu'n fraint i mi wasanaethu fel cynghorydd lleol am un flwyddyn ar ddeg erbyn mis Mai eleni. Rwy'n fam i dri o blant ac mae gennyf erbyn hyn bump o wyrion/wyresau hardd. Rwyf wedi profi'r anawsterau ariannol y mae teuluoedd yn gorfod ymdopi â nhw y dyddiau hyn. Mae profiadau yn y gorffennol wedi fy ngalluogi i ddeall llawer o faterion sy'n effeithio ar ein preswylwyr heddiw. Rwy'n credu fy mod yn deall rhai materion yn glir iawn oherwydd fy mhrofiadau personol ac mae'r rhain yn fy ngalluogi i gynrychioli pawb ar unrhyw fater sy'n ei boeni, gan gynnwys rhieni sengl ac unrhyw un sy'n profi cam-drin yn y cartref neu dlodi a'r holl broblemau sydd ynghlwm wrth hwnnw. Ac rwyf rhwng y ddwy stôl yn gofalu am berthnasau hŷn sy'n sâl ac wyrion/wyresau bywiog - sôn am wrthgyferbyniad! Felly, fel cynifer o bobl rwy'n eu hadnabod, mae'n hanfodol cydbwyso fy amser a'm hegni. Dros amser rwyf wedi cwrdd â phobl ryfeddol yn fy ward ac rwyf wedi gwneud ffrindiau gyda nhw, gan gynnwys Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) a swyddogion sydd wedi ein helpu yn ein gwaith. Ac mae'n rhaid dweud mai gwaith boddhaus iawn oedd hyn ac, ar adegau, waith a oedd yn achosi cryn rwystredigaeth! Ond ni fyddwn am wneud unrhyw beth arall.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £22,000 – Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11.06.15 |